**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

21 Ebrill 2020

Annwyl Mr Crabb,

**Ymchwiliad: Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Cynhaliodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i'r Paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru pan fydd y DU yn gadael yr UE a sut y gellid gweinyddu'r hyn a ddaw yn lle cyllid yr UE.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad a wnaeth 18 o argymhellion. Roedd yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru ac yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU. Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2018 pan dderbyniodd bob un o argymhellion y Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor lythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd hefyd ar 11 Hydref 2018. Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru na fyddai'n briodol i Lywodraeth y DU ymateb yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor. Fodd bynnag, gwnaeth sylwadau ar nifer o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn trafod nifer o faterion a gododd yn eich ymgynghoriad, ac rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad felly o gymorth i'ch ymchwiliad

Yn gywir

Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English*

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565